




### Cynlluniau enwadol

Gall enwadau gymryd camau ymarferol i ofalu am y ddaear ar lefel rhanbarth(au) hefyd trwy gynlluniau dyfarnu cydweddus sy'n cefnogi twf lleol Eco Church. Mae rhagor o wybodaeth am Eco Diocese, Eco Synod, Eco Circuit ac Eco District ar gael yn:

**ecochurch.arocha.org.uk/denominational-awards**

## Cefnogwch A Rocha UK

Lansiodd A Rocha UK Eco Church yn 2016. Rydym ni'n elusen Gristnogol sy'n ymroddedig i ddatblygu gallu Cristnogion ac eglwysi i wneud gofal am y byd naturiol yn rhan ganolog o'u cymunedau. Gallwch chi wneud gwahaniaeth trwy gefnogi ein gwaith ar-lein yn

arocha.org.uk/donate

**Diolch yn fawr**

### Archwiliwch ein hadnoddau

ecochurch.arocha.org.uk/resources

020 8574 5935 / ecochurch@arocha.org

A Rocha UK, 80 Windmill Road, Brentford TW8 0QH

Mae A Rocha UK yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089276)
ac yn yr Alban (SC042147)
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (4210929).

christian aid · BENEFACT TRUST · THE CHURCH OF ENGLAND · The United Reformed Church · The Methodist Church · tearfund

Argraffwyd gan ddefnyddio inc olew llysiau ar bapur 100% wedi'i ailgylchu.

# ECO CHURCH

AN A ROCHA UK PROJECT

Eich eglwys chi yn gofalu am ddaear Duw



ecochurch.arocha.org.uk

A ROCHA UK — Caring for God's Earth

Mae A Rocha UK yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089276)
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (4210929)

## Beth yw Eco Church?

Cymuned ddysgu o eglwysi o bob math a maint yw Eco Church, ac mae'n agored i bob enwad. Mae'n darparu fframwaith i gefnogi'ch eglwys a'i harweinwyr i gymryd camau ymarferol i ofalu am ddaear Duw. Mae'n cynnwys pecyn offer o adnoddau, arolwg dyfarniadau ar-lein, diweddariad e-bost bob chwarter, digwyddiadau ar-lein, a chynadleddau.

Bydd yr arolwg Eco Church yn eich helpu i 'fod yn wyrdd' ym mhob agwedd ar fywyd eich eglwys. Bydd y gwaith a wnewch i gyd yn cyfrif at ddyfarniad Eco Church Efydd, Arian neu Aur – pob un o'r tri, gobeithio.

Bydd ein digwyddiadau ar-lein a'n cylchlythyr, 'Eco Church Connect', yn rhoi ysbrydoliaeth a syniadau i'ch helpu chi a'ch eglwys i ofalu am fyd Duw ar draws pob agwedd ar fywyd eich eglwys.



## Arolwg Eco Church

Mae ein harolwg, sydd ar gael am ddim ar-lein, a'r adnoddau sy'n cefnogi hynny wedi'u llunio i ddatblygu gallu eich eglwys i fynegi eich gofal am fyd Duw yn eich addoliad a'ch dysgeidiaeth; yn eich gofal am eich adeiladau a'ch tir; yn eich ymwneud â'ch cymuned yn lleol ac yn fyd-eang; ac yn ffyrdd o fyw yr unigolion sy'n rhan o'ch cynulleidfa.

Bydd yr arolwg yn eich tywys a'ch helpu i asesu eich cynnydd at ddyfarniad Eco Church – po fwyaf y bydd eich eglwys yn ei wneud, mwyaf o bwyntiau gewch chi! Gallwch chi gymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd trwy newid i gwmni ynni gwyrdd neu ddefnyddio Masnach Deg ar gyfer eich cyflenwadau te a choffi, er enghraifft.

Mae'r arolwg yn mynd â chi drwy bum agwedd allweddol ar fywyd eglwys:

- Addoliad a Dysgeidiaeth
- Rheoli Adeiladau Eglwys
- Rheoli Tir Eglwys
- Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang
- Ffordd o Fyw

Mae angen rhyw 20 munud i lenwi'r arolwg – ond chi fydd yn dewis faint o waith mae eich eglwys yn ei wneud i gymhwyso ar gyfer dyfarniad a faint o amser bydd hynny'n cymryd! Unwaith bydd eich arolwg yn dangos bod gennych chi ddigon o bwyntiau i wneud cais am ddyfarniad, cewch gyflwyno eich cais. Mae'r rhan fwyaf o eglwysi'n cyrraedd dyfarniad Efydd mewn 4-6 mis.

Mae'r arolwg yn cymryd i ystyriaeth a oes gan eich eglwys adeiladau neu dir. Gallwch chi gadw eich ymatebion i'r arolwg ar unrhyw adeg, a dychwelyd i'w diweddaru wrth i'ch eglwys gwblhau camau ychwanegol.

Mae tair lefel i'r dyfarniad. Ar lefel Efydd ac Arian, bydd angen i arweinydd eich eglwys lofnodi eich cais er mwyn cadarnhau eich ymatebion i'r arolwg. Rhoddir dyfarniad Aur ar ôl i aseswr Eco Church ymweld â'ch eglwys – rydyn ni'n dweud "Aur amdani!"

## Digwyddiadau Eco Church

Mae ein digwyddiadau'n archwilio sut gallwn ni, gyda'n gilydd, ofalu'n well am ddaear Duw yn ein bywyd eglwysig trwy fframwaith Eco Church. Rydym ni'n croesawu eglwysi o bob enwad. Mae ein fforymau gweddi ar-lein yn lle i fyfyrio, rhannu a gweddïo gyda'n gilydd. Ewch i: **arocha.org.uk/events**

## Faint mae hyn yn costio?

Mae bod yn rhan o Eco Church A Rocha UK yn gwbl ddi-dâl. Gallwch chi gofrestru eich eglwys, cwblhau'r arolwg, gwneud cais am eich dyfarniad a derbyn eich tystysgrif heb i ni godi tâl arnoch chi o gwbl. Ond fe all fod costau ynghlwm wrth y gwaith mae eich eglwys yn penderfynu ei wneud er mwyn dod yn Eco Church. Fe gewch chi gyfle hefyd i brynu plac, fel bod modd i chi arddangos eich dyfarniad Eco Church i bawb ei weld!




## Cychwynnwch ar eich taith Eco Church heddiw

**ecochurch.arocha.org.uk**

Cofrestrwch ar y ddolen uchod. Gallwch wneud hynny mewn ychydig funudau. Bydd cofrestru yn golygu bod modd i deulu eich eglwys wirio cynnydd a dathlu llwyddiant.